**AMGUEDDFA'R LLENG RUFEINIG (GAN GYNNWYS BADDONAU'R GAER, YR AMFFITHEATR A'R BARICS SYDD YNG NGOFAL CADW), CAERLLION**

**GWYBODAETH AM DDIOGELWCH I HELPU YSGOLION I BARATOI AR GYFER YMWELIADAU YSGOL AC ASESU RISGIAU**

**Cofiwch:**

- fod ysgolion yn gyfrifol am wneud eu hasesiadau eu hunain o'r risgiau, ac
- na allwn ni lenwi, dilysu na llofnodi unrhyw ran o ffurflenni asesu risgiau ysgolion am nad ni sy'n gyfrifol amdanyn nhw.

Rydyn ni'n argymell bod ysgolion yn cyfeirio at ddogfen y DfES '*Health and Safety of Pupils/Young People on Educational Visits - A Good Practice Guide, 1988'.* http://www.teachernet.gov.uk/wholeschool/healthandsafety/visits. Mae hyn yn egluro mai cyfrifoldeb athrawon ac arweinwyr grwpiau yw llenwi asesiadau o risgiau cyn mynd ar ymweliad.

Rhywbeth i'ch helpu chi i baratoi yw'r wybodaeth rydyn ni'n ei chynnig am ddiogelwch, ac nid yw'n cymryd lle'r angen am i chi wneud eich asesiad eich hun o risg sy'n benodol i anghenion eich grŵp gan ddilyn y canllawiau swyddogol a pholisïau'r ysgol/AALl.

Mae ein gwybodaeth am ddiogelwch yn amlinellu'r mesurau rheoli y mae'r amgueddfa'n eu dilyn i osgoi neu leihau risgiau, ynghyd â'r rheolau ymddygiad ar gyfer grwpiau sy'n ymweld. Bydd eich asesiad o risg yn cymryd i ystyriaeth oedran, gallu ac anghenion penodol eich grŵp, unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'ch cludiant neu'r tywydd adeg eich ymweliad, yn ogystal â gwybodaeth yr amgueddfa am ddiogelwch.

Rydyn ni'n argymell eich bod chi'n rhoi copi o'r asesiad o risgiau/gwybodaeth berthnasol am ddiogelwch i'r holl athrawon/goruchwylwyr ar yr ymweliad.

Yn olaf, rydyn ni wedi cynnwys dyfyniadau o Bolisi Amddiffyn Plant yr amgueddfa ar ddiwedd y ddogfen er gwybodaeth.

## DATGANIAD DIOGELWCH

Mae Amgueddfa'r Lleng Rufeinig yn derbyn ei chyfrifoldebau llawn o dan y Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch. Mae Polisi Iechyd a Diogelwch yn bodoli ynghyd ag asesiadau ysgrifenedig o risg a wnaed mewn perthynas â'n dyletswyddau cyfreithiol tuag at bobl nad ydynt yn aelodau o staff (h.y. ymwelwyr) sy'n dod i'r safle ac yn defnyddio ein cyfleusterau.

Gallwn eich sicrhau chi fod iechyd a diogelwch ymwelwyr ar y safle o'r pwys mwyaf i ni. Rydyn ni wedi cydweithio'n agos â'r awdurdod lleol ar faterion iechyd a diogelwch, ac rydyn ni am sicrhau y byddwch chi'n mwynhau ymweliad llawn hwyl a gwybodaeth.

Mae gennym ni bolisi recriwtio, hyfforddi ac asesu staff sy'n sicrhau bod yr holl staff sy'n gyfrifol am ddiogelwch a lles ymwelwyr/cyfranwyr yn gymwys i wneud eu gwaith.

Gofynnir yn garedig i athrawon a staff eraill yr ysgol weithio mewn partneriaeth ag Amgueddfa'r Lleng Rufeinig trwy oruchwylio'r plant sydd yn eu gofal ar y safle.

Cyfrifoldeb yr ysgol yw'r disgyblion drwy gydol yr ymweliad, gan gynnwys amser cinio.

Rydyn ni'n argymell yn gryf bod arweinwyr grwpiau'n dod ar ymweliad i baratoi er mwyn asesu unrhyw risgiau posibl i'ch grŵp.

| **CEFNDIR** | |
|---|---|
| Profiad | Mae Amgueddfa'r Lleng Rufeinig wedi bod ar agor i'r cyhoedd ers dros 150 mlynedd. Mae'r Adran Addysg wedi bod yn croesawu ymwelwyr ers 1996.<br><br>Mae Amgueddfa'r Lleng Rufeinig wedi ennill Gwobr Sandford am ragori ym maes addysg treftadaeth. |
| Manylion y Safle/Atyniad | Mae'r safle yn rhoi cyfle i chi brofi sut beth oedd bywyd milwr Rhufeinig wrth drin a thrafod arfwisgoedd a gweld ble byddai'r milwyr yn cysgu yng Nghanolfan Capricorn. Yn oriel yr Amgueddfa, cewch weld arteffactau go iawn o orffennol Rhufeinig Caerllion.<br><br>Mae Baddonau'r Gaer yn rhoi cyfle i chi weld sut byddai milwyr Rhufeinig yn ymlacio, a bydd yr unig Amffitheatr cyflawn ym Mhrydain a'r enghraifft orau o floc Barics yn Ewrop yn helpu i ddod â'r gorffennol yn fyw.<br>Mae ymweliad ysgol nodweddiadol yn cymryd rhyw 4½ awr (gan gynnwys ½ awr o egwyl am ginio).<br><br>Mae Ystafell y Barics ar agor i'r cyhoedd ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau'r ysgol. |
| Nifer yr Ymwelwyr | Mae'r Amgueddfa'n croesawu 65,000 o ymwelwyr y flwyddyn ar gyfartaledd. Daw rhyw 26,000 o'r rhain mewn grwpiau addysg ffurfiol. |
| Manylion cyswllt | I drefnu ymweliad, trafod unrhyw ran o'ch ymweliad neu drefnu ymweliad i baratoi, ffoniwch Adran Addysg yr Amgueddfa ar 01633 430 567 neu 01633 423 745.<br>I gael gwybodaeth am yr Amgueddfa neu ddigwyddiadau ffoniwch 01633 423134, ffacsiwch 01633 422869 neu ewch i www.aocc.ac.uk/rlm<br><br>I gysylltu'n uniongyrchol â Baddonau Caer Cadw, ffoniwch 01633 422518.<br><br>Os ydych chi'n poeni am unrhyw beth ar ôl eich ymweliad, neu os cawsoch chi broblemau mewn perthynas â rheolaeth y lleoliad neu iechyd a diogelwch aelodau o'r grŵp, byddwn ni'n hapus i drafod y materion hyn gyda chi. |

| GWYBODAETH GYFFREDINOL | |
|---|---|
| Anifeiliaid / Anifeiliaid yn Baeddu mewn Mannu Cyhoeddus | Ni chaniateir cŵn ar unrhyw ran o'r safleoedd, ond mae rhai pobl yn defnyddio'r safleoedd awyr agored i fynd â'u cŵn am dro heb awdurdod, felly ni allwn ni warantu na fydd unrhyw gŵn yno.<br><br>Rydyn ni'n croesawu cŵn tywys gydag ymwelwyr â nam ar eu clyw neu ar eu golwg. |
| Systemau Cyfathrebu | Nid oes staff ar y safleoedd awyr agored. Rydyn ni'n argymell bod ymwelwyr yn dod â ffôn poced i gysylltu â'r Amgueddfa os oes angen. |
| Hanes Troseddol | Rydyn ni wedi gwneud archwiliad y Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol (NIS) ar bob aelod o staff. Mae'r archwiliadau cydnabyddedig hyn yn arbennig ar gyfer y sector amgueddfeydd ac yn gyfystyr ag archwiliad sylfaenol y CRB.<br><br>Mae staff yr amgueddfa sy'n dod i gysylltiad rheolaidd a/neu heb oruchwyliaeth â phlant yn cael archwiliadau trylwyr y CRB. |
| Clirio'r adeilad mewn argyfwng | Mae trefniadau ar waith i glirio'r safle mewn argyfwng. Mae staff yr Amgueddfa'n gyfarwydd â'r trefniadau hyn ac yn eu hymarfer yn gyson.<br><br>Mae cyfarwyddiadau tân :<br>• y tu ôl i'r dderbynfa yn oriel yr amgueddfa<br>• wrth fynedfa Canolfan Capricorn<br>• y tu allan i'r Grammaticus (yr ystafell ddosbarth).<br><br>Os bydd y larwm yn canu, ewch allan trwy'r allanfa agosaf. Dilynwch gyfarwyddiadau staff yr amgueddfa. |
| Cyfleusterau ar gyfer Ymwelwyr ag Anghenion Arbennig | Mae Amgueddfa'r Lleng Rufeinig yn ceisio darparu ar gyfer ymwelwyr ag anghenion arbennig. Cysylltwch â ni <u>ymlaen llaw</u> i holi pa drefniadau y gallwn ni eu gwneud ar gyfer ymwelwyr ag anghenion arbennig.<br><br>Rhaid i ysgolion ac arweinwyr grwpiau sicrhau eu bod nhw'n gwneud trefniadau addas i oruchwylio a chynorthwyo disgyblion ag anghenion arbennig.<br><br>Mae Canllawiau Mynediad ar gael ar ein gwefan www.aocc.ac.uk/allr neu ffoniwch 01633 430567. Mae canllawiau mynediad Cadw ar gael yn www.cadw.cymru.gov.uk neu drwy ffonio 029 2050 0200.<br><br><u>Namau corfforol</u><br>Mae Oriel yr Amgueddfa, Ystafell y Barics, a Baddonau'r Gaer yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn. Mae modd mynd i'r Amffitheatr mewn cadair olwyn hefyd os yw'r tywydd yn caniatáu. Ond yn anffodus nid yw olion y barics yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn.<br><br><u>Nam ar y golwg</u><br>Mae Oriel yr Amgueddfa wedi ei oleuo'n dda. Mae golau isel ym Maddonau'r Gaer felly rhowch amser i'ch llygaid addasu i'r tywyllwch. Mae cyflwyniadau sain yng Nghanolfan Capricorn ac ym Maddonau'r Gaer. Mae casgliad trin a thrafod ar gael yn yr Amgueddfa. |

| | |
|---|---|
| | <u>Nam ar y clyw</u><br>Mae dolen sain ar dderbynfa oriel yr Amgueddfa. |
| Cymorth Cyntaf | Os oes angen Cymorth Cyntaf arnoch chi, cysylltwch ag aelod o staff yr Amgueddfa a fydd yn galw am gymorth. |
| Teithiau Tywys / Gweithgareddau yng Nghwmni Dehonglydd | Mae Hwylusydd yn arwain y sesiynau yng Nghanolfan Capricorn, a bydd aelod o staff yn rhoi cyflwyniad byr i'r oriel (gan gynnwys manylion diogelwch). Arweinydd y grŵp/athro/athrawes fydd yn arwain gweddill yr ymweliad.<br><br>Mae Tywyswyr sy'n gweithio'n annibynnol o'r Amgueddfa ar gael i hwyluso ymweliadau â'r Amffitheatr neu Faddonau'r Gaer. Ffoniwch y Ganolfan Groeso ar 01633 422 656 i holi. |
| Cyfyngiadau ar Daldra | Mae drws allanfa dân Baddonau'r Gaer yn isel. |
| Yswiriant / Atebolrwydd Cyhoeddus | Fel Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, nid oes yswiriant masnachol gan yr Amgueddfa. Caiff unrhyw atebolrwydd a brofir ei dalu o gronfeydd yr Amgueddfa ei hun, neu, os nad yw hynny'n ddiogel, trwy wneud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol. |
| Plant Coll | Bydd yr ymweliad yn cwmpasu mwy nag un safle, felly gofalwch eich bod chi'n cadw'r grŵp gyda'i gilydd. Mae ffyrdd Caerllion yn gallu mynd yn brysur, felly byddwch yn ofalus wrth symud o un safle i'r llall.<br><br>Dywedwch wrth y plant i siarad ag un o'r Wardeiniaid neu aelod o staff yr Amgueddfa os ydyn nhw ar goll.<br><br>Os bydd aelod o'r grŵp yn sylwi bod rhywun ar goll o'r grŵp, dywedwch wrth un o'r Wardeiniaid neu aelod o staff yr Amgueddfa a fydd yn cymryd y camau priodol. |
| Maint Grwpiau / Goruchwyliaeth | Gwnewch yn siŵr bod rhywun yn goruchwylio'ch disgyblion **drwy'r amser**. Rydyn ni'n gofyn eich bod chi'n cadw at y cyfraddau canlynol:<br><br>Rydyn ni'n gofyn eich bod chi'n cadw at y cyfraddau canlynol:<br>Blynyddoedd ysgol 1 i 3 (5 i 8 oed) : 1 oedolyn cyfrifol : 6 phlentyn<br>Blynyddoedd ysgol 4 i 6 (oed 8 i 11) : 1 oedolyn cyfrifol : 10 -15 plentyn<br>Blwyddyn 7 + (oed Uwchradd 11+) : 1 oedolyn cyfrifol : 15 -20 plentyn<br><br>Dyma'r cyfraddau y mae'r DfES yn eu hargymell. Dylai arweinwyr grwpiau asesu'r risgiau ac ystyried lefel ddiogel o oruchwyliaeth ar gyfer eu grŵp.<br><br>Ni chaniateir mwy na 36 mewn grŵp sy'n ymweld â'r holl safleoedd <u>gan gynnwys</u> Canolfan Capricorn. Ni chaniateir mwy na 50 mewn grŵp sy'n ymweld â'r holl safleoedd <u>heblaw</u> Canolfan Capricorn. |
| Anghenion Meddygol | Dylai arweinwyr grwpiau neu ysgolion roi gwybod i staff y Swyddfa Archebu os oes gan unrhyw ddisgybl anghenion penodedig neu anhwylder meddygol penodol. |

| | |
|---|---|
| | Bydd rhaid i ni ystyried hyn a thrafod trefniadau brys gyda chi.<br><br>Os yw hi'n ddiogel, byddwn ni'n ceisio cynnwys disgyblion ag anhwylderau penodedig neu ddifrifol yn y gweithgareddau a gynigir. |
| Offer / Offer Chwarae | Mae'r holl offer yn cael ei archwilio'n gyson i wneud yn siŵr ei fod e'n aros yn 'addas at ei bwrpas'. Rhaid i staff yr ysgol oruchwylio plant sy'n defnyddio'r offer. Ni chaniateir dringo coed ar y safle. |
| Planhigion Gwenwynig / Ffwng | Dywedwch wrth y plant i beidio â chasglu a/neu fwyta unrhyw blanhigion, blodau, aeron neu gnau ar safle'r Amgueddfa. |
| Ymddygiad Ymwelwyr | Rhaid i ymwelwyr beidio â :<br>• mynd i fannau sydd ar gau i'r cyhoedd<br>• ymddwyn yn afreolus<br>• chyffwrdd â neu ddringo peiriannau sy'n gweithio.<br><br>Mae'r Amgueddfa'n cadw'r hawl i ofyn i grwpiau neu ymwelwyr sy'n ymddwyn yn wael neu'n afresymol adael y safle.<br><br>**Rhaid** i unrhyw grwpiau o fyfyrwyr o dan 16 oed fod dan oruchwyliaeth bob amser. Arweinwyr grwpiau neu'r oedolion sy'n eu goruchwylio sy'n gyfrifol amdanynt drwy gydol yr ymweliad. Gallwn ni wrthod gadael i grwpiau heb oruchwyliaeth ddod i'r safle. |
| Map Sgematig | Cewch fap gyda'ch amserlen. Mae'n rhoi gwybodaeth am fannau parcio bysys/ceir ac am y llwybrau swyddogol i gerddwyr. Llungopïwch y map ar gyfer holl arweinwyr eich grŵp. |
| Archwiliadau o Gyfleusterau'r Safle | Mae staff yn archwilio'r cyfleusterau'n gyson ac yn cofnodi eu canfyddiadau. |
| Adnabod Staff y Safle | Bydd yr holl bobl hyn yn gallu'ch helpu chi ni'ch cyfeirio chi at y lle gorau i gael cymorth.<br><br><u>Yr Amgueddfa</u><br>Mae holl staff yr amgueddfa'n gwisgo bathodynnau adnabod â ffotograffau. Mae staff gwirfoddol yr Amgueddfa'n Gwisgo bathodynnau adnabod.<br><br><u>CADW</u><br>Mae staff CADW'n gwisgo crysau T glas golau. |
| Traffig | Mae maes parcio i ymwelwyr wrth yr Amffitheatr. Mae rhai o ffyrdd a phalmentydd Caerllion yn gul, ac mae'r traffig yn gallu bod yn drwm ar adegau. Byddwch yn ofalus wrth symud grwpiau rhwng y safleoedd. |
| Amddiffyn Rhag y Tywydd / Diogelwch yn yr Haul / Dillad | Byddwch chi'n treulio'r rhan fwyaf o'r diwrnod dan do. Os yw'r tywydd yn wael gallwch ddefnyddio'r ystafell ddosbarth yn lle mynd i'r Amffitheatr a'r Barics (os yw'r ystafell ar gael).<br><br>Ychydig iawn o gysgod sydd ar y safleoedd awyr agored hyn ar ddiwrnodau |

| | |
|---|---|
| | heulog. |
| Cyfleusterau Lles | Toiledau<br>Mae toiledau i bobl anabl gyda chyfleusterau newid cewynnau wrth ymul oriel yr Amgueddfa.<br><br>Mae toiledau i fechgyn a merched yng Nghanolfan Capricorn, ynghyd â thoiled i bobl anabl.<br><br>Mae dau doiled yn y pafiliwn wrth ymyl yr Amffitheatr.<br><br>Ystafell Frechdanau<br>Bydd amser eich sesiwn cinio ar eich amserlen. Mae ystafelloedd ar gael i fwyta'ch cinio. Cewch fwyta yn yr ardd mewn tywydd braf.<br><br>Ni chewch fwyta nac yfed yn Oriel yr Amgueddfa. |

| **GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL** | |
|---|---|
| Peryglon posibl a mesurau i'w rheoli | Mae Amgueddfa'r Lleng Rufeinig yn rhan o Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, ond Cadw sy'n cynnal Baddonau'r Gaer, yr Amffitheatr a'r Barics. Er hwylustod, adran addysg Amgueddfa'r Lleng Rufeinig sy'n cydlynu'r holl ymweliadau addysg.<br><br>Orielau'r Amgueddfa<br>Grisiau, corneli miniog ar gesys arddangos a lloriau sy'n gallu bod yn llithrig os ydyn nhw'n wlyb.<br>Rhaid cadw llygad ar grwpiau drwy'r amser. Bydd staff yr Amgueddfa wrth law.<br>Cegin y Cadlywydd<br>Chwarae rôl a gwisgo, defnyddio replicas o'r gwrthrychau.<br>Rhaid cadw llygad ar grwpiau drwy'r amser. Bydd staff yr Amgueddfa wrth law.<br><br>Ystafell y Barics<br>Arfwisgoedd a gwaywffyn.<br>Rhaid cadw llygad ar grwpiau drwy'r amser. Peidiwch â gadael i'r plant godi'r arfau.<br><br>Baddonau'r Gaer<br>Lloriau anwastad, corneli miniog ar gesys arddangos, drws isel ar yr allanfa dân. Rhowch amser i'ch llygaid addasu i'r golau.<br>Rhaid cadw llygad ar grwpiau drwy'r amser.<br><br>Yr Amffitheatr a'r Barics (safleoedd awyr agored)<br>Grisiau serth, lloriau a llethrau anwastad a llithrig, pantiau annisgwyl.<br>Rhaid cadw llygad ar grwpiau drwy'r amser. Byddwch yn arbennig o ofalus ar y safleoedd awyr agored oherwydd y peryglon hyn, yn arbennig mewn tywydd gwael. |
| Adolygu | Caiff y ddogfen yma a'r wybodaeth gysylltiedig am ddiogelwch ei diweddaru'n gyson. |

**Mai 2005**

**AMDDIFFYN PLANT AR SAFLEOEDD AOCC**

**Mae ein Polisi Amddiffyn Plant llawn ar y Wefan o dan Amdanom Ni/Strategaeth a Pholisi. Darllenwch y darnau isod cyn eich ymweliad.**

**Cyfrifoldebau Arweinwyr/Athrawon wrth ymweld â'r Amgueddfa**
Mae Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru am sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag niwed yn yr Amgueddfa. Yn ogystal â dyletswyddau'r Amgueddfa, rydyn ni'n gofyn bod arweinwyr/athrawon grwpiau yn cyflawni eu cyfrifoldebau eu hunain.

Yn benodol, bydd yr holl arweinwyr/athrawon yn:
- Sicrhau eu bod nhw'n goruwchwylio'r plant/pobl ifanc ar bob adeg
- Cysylltu ag aelod o staff yn achos damwain er mwyn sicrhau bod Trefn Argyfwng AOCC yn cael ei dilyn
- Cysylltu ag aelod o staff os oes plentyn ar goll er mwyn dilyn trefn yr Amgueddfa.
- Sicrhau nad oes ganddynt, ac nad ydynt yn yfed diodydd meddwol nac yn defnyddio cyffuriau anghyfreithlon nac yn smygu ar dir yr Amgueddfa
- Peidio â cham-drin unrhyw blentyn/person ifanc ar lafar nac yn gorfforol
- Sicrhau bod gennych yswiriant digonol ar gyfer y grŵp a'r arweinydd
- Dweud wrth y grŵp sut i ymddwyn yn Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
- Dilyn Rhagofalon Tân AOCC

**Hoffem atgoffa arweinwyr/athrawon mai nhw sy'n bennaf gyfrifol am les y plant sydd yn eu gofal bob amser.**

**Byddwn ni'n rhoi gwybod i'r arweinydd/athro cyfrifol am unrhyw bryderon (heblaw mewn achosion lle'r person hwn sy'n achosi pryder i ni) ac yn cyfeirio'r mater at yr ysgol/sefydliad wedyn.**

**Caiff pryderon am ymddygiad yr arweinydd/athro eu cyfeirio'n syth at yr ysgol/sefydliad ac efallai at yr heddlu hefyd.**

**Ymddygiad grwpiau yn yr Amgueddfa**
Mae'r Amgueddfa am i'w holl ymwelwyr fwynhau eu hamser gyda ni. Felly rydyn ni'n disgwyl i bob ymwelydd ymddwyn yn gwrtais, ac yn dangos parch at eraill ac at eiddo'r Amgueddfa ar bob adeg wrth ymweld â'r Amgueddfa.

Felly ni ddylai arweinwyr grwpiau adael i neb yn y grŵp:
- Ymddwyn mewn ffordd fygythiol, ymosodol neu dreisgar
- Bwlio (ar lafar neu'n gorfforol)
- Gwneud unrhyw sylwadau rhywiol, hiliol neu sylwadau difrïol eraill ar unrhwy berson neu grŵp arall
- Difrodi eiddo neu arddangosfeydd yr Amgueddfa
- Gadael sbwriel ar dir yr Amgueddfa
- Bwydo, cyffwrdd, dychryn neu frifo'r anifeiliaid
- Mynd i rannau o'r Amgueddfa sydd wedi eu cau â chortyn
- Defnyddio iaith anweddus
- Smygu
- Yfed alcohol y tu hwnt i'r mann au sydd wedi 'u clustnodi (h.y. y bwyty a'r mannau pinic) neu ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon
- Bwyta ac yfed heblaw yn y caffis, y bwyty a'r llefydd eraill sydd wedi eu clustnodi i ysgolion fwyta
- Defnyddio ffôn symudol yn yr orielau

**Os na fyddwch chi'n cadw at y gofynion hyn, mae'r Amgueddfa'n cadw'r hawl i wrthod derbyn grŵp a/neu i ofyn i'r grŵp adael yn safle.**